**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 17 Medi 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | R Francis-Davies | P R Hood-Williams |
| P K Jones | W G Lewis | P Lloyd |
| P M Matthews | T M White | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Scott Dummett | Senior Lawyer |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): V M Evans a/ac M A Langstone

---

**39 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**40 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu Polisi yr Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020 fel cofnod cywir.

**41 Trosolwg o Gynllun Gwaith 2019/2020.**

Darparodd y Cyfarwyddwr Lleoedd drosolwg o'r pynciau a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/2020.

- Isadeiledd Gwyrdd.
- Economi Abertawe (Twristiaeth).
- Strategaeth Coridor yr Afon
- Economi Abertawe (Goblygiadau Brexit)
- Eiddo gwag ar y Stryd Fawr.
- Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
- Presenoldeb yr Arweinydd.

Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a ymatebodd yn briodol.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Ddatblygu ac Adfywio at waith sy'n cael ei wneud mewn perthynas ag ymestyn tymor Twristiaeth Abertawe er mwyn helpu gydag effaith negyddol COVID-19.

Cyfeiriwyd at ymchwiliad craffu ynghylch goblygiadau Brexit. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Lleoedd y byddai adroddiad yn cael ei ystyried gan yr Aelod Cabinet perthnasol yn y lle cyntaf.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd a'r gwahanol gysylltiadau ag agweddau eraill ar bolisi'r cyngor (e.e. Strategaeth Tegwch Gwyrdd).

**Penderfynwyd:**

1. Y byddai'r Cyfarwyddwr Isadeiledd Gwyrdd yn penderfynu a allai'r Pwyllgor ystyried hyn cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ei ystyried.
2. Y bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn ystyried effeithiau COVID-19 ar Dwristiaeth Abertawe ac yn paratoi diweddariad ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.

## 42 Cynllun Gwaith 2020/2021

Cyfeiriodd yr Is-gadeirydd at y Cynllun Gwaith.

**Penderfynwyd** y dylai'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2020/2021 gynnwys y canlynol:

| | |
|---|---|
| 15 Hydref 2020 | 1. Amnest ar Wastraff (Diweddariad)<br>2. Teithio Llesol.<br>3. Strategaeth Toiledau Leol (Dolen i'w dosbarthu i'r Aelodau) |
| 19 Tachwedd 2020 | |
| 17 Rhagfyr 2020 | |
| 21 Ionawr 2021 | |
| 18 Chwefror 2021 | |
| 18 Mawrth 2021 | |
| 22 Ebrill 2021 | |
| I’w drefnu | 1) Goblygiadau COVID-19 ar Dwristiaeth Abertawe.<br>2) Goblygiadau Brexit. |

| | |
|---|---|
| | 3) Eiddo gwag ar y Stryd Fawr.<br>4) Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer. |

Daeth y cyfarfod I ben am 2.29 pm

**Cadeirydd**